Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 22 Hydref 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Lewney (Maer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

104. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gavin Harris.

105. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Emrys Wynne ddatgan budd personol yn eitem 11 Cais am Gymorth Ariannol – Swyddfa Cyngor ar Bopeth Rhuthun.

106. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

28.09 Bore Coffi Macmillan yn y Myddelton Grill
12.10 Digwyddiadau Cofeb ’18 – Canu’r Cnul Olaf a thaflunio’r enwau’r 101 o Rhuthun fu farw yn Eglwys Sant Pedr.
14.10 Digwyddiad cofio yng Nghapel y Tabernacl.

107. ADRODDIADAU’R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Bore Coffi Macmillan yn y Myddelton, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, Digwyddiadau Cofeb ’18 – Canu’r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr, digwyddiad coffa yng Nghapel y Tabernacl, paratoi a lansio Llwybr y Meirwon a sesiwn Tîm Tref Taclus yn Ffordd Wynnstay.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Bore Coffi Macmillan yn y Myddelton a Chanu’r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod dechreuol Deall Demensia yn Rhif 10 Stryd Mwrog, Bore Coffi Macmillan yn y Myddelton, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, Lansio Apêl Pabi y Lleng Brydeinig yn Eglwys Sant Pedr a Chanu’r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Jim Bryan	Bore Coffi Macmillan yn swyddfa Swayne Johnson a’r Myddelton Grill, cyfarfod Pwyllgor Gefeillio Rhuthun a chyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Canu’r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr a’r digwyddiad coffa yng Nghapel y Tabernacl.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod dechreuol Deall Demensia yn Rhif 10 Stryd Mwrog, canu'r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr, digwyddiad coffa yng Nghapel Tabernacl a lansio Llwybr y Meirwon yn y Ganolfan Grefft.
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 sesiwn Banc Bwyd, yn cynnwys y diwrnod prysuraf ers sefydlu’r Banc Bwyd yn Rhuthun pan roddwyd bwyd i 16 oedolyn a 9 plentyn ar 4 Hydref, cyfarfod Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ysgol Pen Barras, Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras a sesiwn Tîm Tref Taclus yn Ffordd Wynnstay.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod yn Eglwys Sant Pedr ynghylch arddangosfa coffáu’r Rhyfel Byd Cyntaf, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a’r Cylch, bore coffi Macmillan yn y Myddelton, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, gosod yr arddangosfa yn Eglwys Sant Pedr, canu’r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a’r Cylch.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose a pharatoi a chynorthwyo gyda digwyddiadau Cofeb ’18.
Cyng. Heather Williams	Canu’r Cnul Olaf yn Eglwys Sant Pedr.

108. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018 yn gywir.*

109. MATERION YN CODI
Dywedodd y Clerc bod Colin Thomas, Rheolwr Cymru Conffederasiwn Cludiant Teithwyr wedi anfon neges e-bost arall yn datgan fod dyfarnu'r statws yn fater o ffurfioldeb yn ei farn ef, ond nid oedd ganddo amserlen o ran pryd y byddai'r pwyllgor yn cyfarfod i gadarnhau ei argymhelliad. Adroddodd y Cynghorydd Ken Hawkins ar ran y Grŵp Craffu Dogfennau nad oedd Adroddiad Cynigion Drafft Comisiwn Ffiniau Cymru ar Adolygu Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych yn effeithio ar Rhuthun.

110. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018.*

111. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018.*

112. SEDD WAG AR GYNGOR TREF RHUTHUN
Cyfleoedd y Clerc neges oddi wrth Gareth Evans, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ddinbych, yn cynghori nad oeddynt wedi derbyn cais am etholiad ac y dylai'r Cyngor Tref fwrw ymlaen ar hyd y llwybr cyfethol.
PENDERFYNWYD*: cyhoeddi hysbysiad cyfethol a rhannu'r manylion gyda'r wasg.*

113. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL CYDNABYDDIAETH ANNIBYNNOL CYMRU
Gofynnwyd i'r aelodau'n ystyried y penderfyniadau arfaethedig yn yr Adroddiad Drafft. Cynigiwyd cyfeirio hwn at y Grŵp Craffu Dogfennau, gyda'r Cynghorydd John Wynne Hughes i fod yn aelod o'r grŵp yn lle'r cyn Gynghorydd Rosie Hughes.
PENDERFYNWYD*: cyfarfod cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio am 6.15pm nos Lun, 12 Tachwedd.*

114. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – SWYDDFA CYNGOR AR BOPETH RHUTHUN
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol gwerth £2,000.00 i Swyddfa Cyngor ar Bopeth Rhuthun. Roedd y llythyr yn datgan, petai'r swm yn cael ei roi, y byddai'n cael ei glustnodi ar gyfer swyddfa Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: rhoi £2,000.00 o gymorth ariannol i swyddfa Cyngor ar Bopeth Rhuthun.*

115. CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwahodd y Gymdeithas i gynnal cyfarfod chwarterol yn Rhuthun dan nawdd Cyngor Tref Rhuthun. Y Cynghorydd Stephen Beach oedd wedi gofyn am gynnwys yr eitem agenda hon, ac esboniodd bod y Gymdeithas yn trefnu ei chalendr cyfarfodydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf, a byddai hyn ymhen dwy i dair blynedd. Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol a rhoir cinio i'r rhai fu'n bresennol yn dilyn y cyfarfod. Awgrymwyd nifer o leoliadau potensial yn Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: bod yr aelodau'n dymuno gwahodd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru i gynnal cyfarfod yn Rhuthun a rhoi rhagor o ystyriaeth i leoliad addas a'r gofynion arlwyo.*

116. CALENDR ELUSEN Y MAER
Dosbarthwyd costau cynhyrchu'r calendr i'r aelodau, a gofynnwyd iddynt gymeradwyo bod y taliad am Galendrau Elusen y Maer yn cael ei wneud o gyfrif Cyngor Tref Rhuthun yn gyntaf, a'i

ad-dalu maes o law o elw gwerthu'r calendrau.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r argymhelliad.*

117. CYFRANIAD CYNGOR TREF RHUTHUN I'R LLENG BRYDEINIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhoi cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig tuag at dorchau pabi coch yng ngwasanaeth Sul y Cofio.
PENDERFYNWYD*: rhoi cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig tuag at dorchau pabi coch yn y gwasanaeth Sul y Cofio.*

118. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2018.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2018.*

119. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100047	Sandra Williams	Treuliau a chyflog yn ddyledus		£349.74
100048	Cymdeithas Cymuned Llanfwrog	Cymorth ariannol tuag at arddangosfa tân gwyllt Rhuthun 2018		£1,200.00
100049	Rick Parr yn masnachu fel Rickx Disco	System sain ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio		£80.00
100050	P. Vallance	Glanhau'r all waith gwenithfaen ac ailbaentio'r holl lythrennau ar Gofeb Rhyfel Rhuthun		£700.00
100051	Vinny Spillane	Paentio rheiliau Cofeb Rhyfel Rhuthun		£250.00
100052	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol 26.02.18		£32.00
100053	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100054	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£14.48
100055	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£20.71
100056	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Hydref 2018		£352.26
100057	Fineline	250 slip cyfarchion Cyngor Tref Rhuthun	*	£71.90
100058	Workplace Worksafe Ltd	50 llinyn dal bathodynnau adnabod a 15 cerdyn llun penodol	*	£358.80
100059	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100060	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
100061	J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi crog		£408.00
100062	Richard Williams (Deganwy) Ltd	Clymwyr plastig a brwsys paent	*	£13.02

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau a ganlyn heb y wasg a'r cyhoedd yn bresennol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt.

120. YR HEN LYS

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad yn dilyn cais am gynigion gorau am yr Hen Lys trwy dendr anffurfiol. Roedd yr asiant wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref i ddweud y byddai'r cyfreithwyr ar ran y Nat West yn cysylltu ynghylch y cytundeb rhagbrynu, ond nid oeddynt wedi cysylltu cyn y cyfarfod. Awgrymodd yr aelodau gynnal cyfarfod arbennig, petai'n ofynnol.
PENDERFYNWYD*: aros am ragor o fanylion gan y cyfreithwyr, a chynnal cyfarfod arbennig petai angen.*

121. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Dosbarthwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018 i'r aelodau a buont yn trafod yr argymhellion.

PENDERFYNWYD*: trefnu cyfarfod arall yr Is-bwyllgor Staffio cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio nos Lun, 12 Tachwedd.*

122. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 26 Tachwedd 2018 am 7.00pm.*